ichthus

CYLCHGRAWN CHWARTEROL EGLWYS BEREA NEWYDD, BANGOR
Rhif 4 Cyfrol 16 Hydref 2019

www.gofalaethbangor.org - 01248 353132 (swyddfa)

PERERINDOTA ETO I SANTIAGO DE COMPOSTELA

Tudalennau 6 a 7

GWASANAETHAU'R SUL

10.00: OEDFA DEULUOL GAN GYNNWYS YSGOL SUL Y PLANT
5.30: OEDFA'R NOS

Tachwedd 3	Gweinidog
Tachwedd 10	Parch. Eric Jones
Tachwedd 17	Gweinidog
Tachwedd 24	Parch. Jill Thomas bore: Gweinidog - Cymun hwyr
Rhagfyr 1	Owain Davies bore
Rhagfyr 8	Parch. Cledwyn Williams
Rhagfyr 15	Gweinidog bore: Gwasanaeth Nadolig y Plant hwyr
Rhagfyr 22	Gwasanaeth Ieuenctid bore
Rhagfyr 29	Cyfarfod Gweddi trothwy'r flwyddyn bore'n unig
2020	
Ionawr 5	Gweinidog
Ionawr 12	Parch. R.O. Jones
Ionawr 19	Gweinidog
Ionawr 26	Parch. Gerallt Lloyd Evans

DYLETSWYDDAU BLAENOR Y PYTHEFNOS

Tachwedd 3/10	Robat Roberts
Tachwedd 17/24	Gwyn Jones
Rhagfyr 1/8	Elin Walker Jones
Rhagfyr 15/22	Cynthia Owen
Rhagfyr 29	John Wynn Jones
Ionawr 5 (2020)	John Wynn Jones
Ionawr 12/19	Delyth Oswy Shaw
Ionawr 26	Menna Baines

DYLETSWYDDAU BLAENOR Y DRWS

Tachwedd 3/10	Alwyn Ll. Ellis
Tachwedd 17/24	Robat Roberts
Rhagfyr 1/8	John Wynn Jones
Rhagfyr 15/22	Gwyn Jones
Rhagfyr 29	Cynthia Owen
Ionawr 5 (2020)	Cynthia Owen
Ionawr 12/19	Elin Walker Jones
Ionawr 26	Wyn Griffiths

RHODDWYR Y BLODAU (Cydlynydd: Elizabeth Roberts - 353915)

27 Hydref	Marian Harries
3 Tachwedd	Sara Tudor
10 Tachwedd	Ann Roberts
17 Tachwedd	Morfydd Roberts
24 Tachwedd	Gwen Hughes
1 Rhagfyr	Eirian Howells
8 Rhagfyr	Enid Roberts
15 Rhagfyr	Eleri W. Jones
22 Rhagfyr	NADOLIG
29 Rhagfyr	Margaret Tilsley

GAIR GAN Y GWEINIDOG

Y PARCHEDIG ELWYN RICHARDS

Bu'n brysur iawn yn y capel ers dechrau Medi, gyda phob math o fudiadau yn defnyddio'r lle. Mae maes parcio a chyfleusterau hwylus yn denu defnyddwyr ac yr ydym yn falch iawn fod yr adeilad yn cael ei ddefnyddio bron bob dydd. Bod yn lle ar gyfer addoliad y Sul a gweithgareddau'r eglwys yw prif ddiben pob capel ond rhaid cofio hefyd fod yr Eglwys yn llawer mwy na'r gynulleidfa leol.

Cawsom ein hatgoffa o hynny ar ddau achlysur yn ddiweddar – pan gyfarfu Henaduriaeth Arfon ym Merea Newydd ym mis Medi i ordeinio blaenoriaid newydd, a phan fu i'r Gymdeithasfa yn y Gogledd gyfarfod yma ddechrau Hydref ac yr ordeiniwyd y bardd a'r llenor, Aled Lewis Evans, Wrecsam yn weinidog yr efengyl.

Mae Henaduriaeth Arfon yn cynnwys 24 o eglwysi yn ymestyn o Benmaen-mawr i Glynnog a chyn belled â Nantmor, ac mae'r Gymdeithasfa yn y Gogledd yn cynnwys saith o henaduriaethau yn ymestyn o Lerpwl i Fachynlleth, a thua'r dwyrain cyn belled â Birmingham a Coventry.

Gan mai Mrs Cynthia Owen yw Llywydd y Gymdeithasfa eleni, hi a gafodd y fraint o ordeinio Aled, a hi hefyd sydd wedi bod yn ordeinio blaenoriaid ar hyd a lled y Gymdeithasfa yn ystod y misoedd diwethaf. O fewn Eglwys Bresbyteraidd Cymru y mae perthynas ffurfiol o ran trefn a strwythur rhwng yr holl eglwysi a'i gilydd, ac mae hynny o reidrwydd yn creu perthynas rhwng pobl hefyd.

Wrth groesawu yr Henaduriaeth a'r Gymdeithasfa i Berea Newydd roeddem yn croesawu ffrindiau, ac mae'n rhaid diolch i bawb fu'n trefnu, ac i'r chwiorydd yn arbennig am ddarparu llond gwlad o ddanteithion a pharatoi'r festri.

Amser te yn y Gymdeithasfa, a'r byrddau dan eu sang, fe gafwyd cyfarchion ar ran eglwysi Bangor gan y Parchg Casi Jones, gweinidog Emaus. Cyfeiriodd at y ffaith fod llythyrau Paul ac eraill yn y Testament Newydd yn cychwyn yn bur aml efo cyfarchion, a bod hynny'n dangos yn eglur fod y Cristnogion cynnar yn ymwybodol iawn o'r berthynas rhwng y gwahanol gynulleidfaoedd a'i gilydd. Nid pobl fewnblyg eu hagweddau mohonynt, a phob eglwys yn byw ac yn addoli ar wahân, ond un teulu.

Ac mewn byd sydd mor unigolyddol a rhanedig, lle mae cymaint o bobl yn teimlo iddynt gael eu hanghofio a chymaint o eglwysi wedi mynd mor ddigalon, onid oes angen inni unwaith eto bwysleisio Teulu Duw?

Creu perthynas ydi gwaith yr Eglwys, a hynny'n lleol a byd-eang. Ni allwn byth drechu bygythiad newid hinsawdd heb gydweithredu, na sicrhau cyfiawnder cymdeithasol heb gydymdeimlad a dealltwriaeth. Gobeithio fod pob defnydd o Berea Newydd, pob ymwneud rhyngom fel Cristnogion a'n gilydd, a phob cyfeillgarwch a chymdeithas yn hybu hynny. Anfonwn ein cofion at bawb sy'n wael ac yn llesg, ac at bawb sydd mewn profedigaeth. Yn nhymor y diolchgarwch diolchwn hefyd am bob cynhaliaeth a gofal, ac am gymdeithas dda rhyngom a'n gilydd.

ARCTIG: MÔR O BLASTIG?

LLIO EURGAIN

Daeth Llio, sy'n aelod o Ysgol Sul Berea Newydd, yn fuddugol yn un o gystadlaethau gwaith cartref Eisteddfod yr Urdd eleni, sef adolygu ffilm – cystadleuaeth ar gyfer Bl.7, 8 a 9.
Llongyfarchiadau iddi, ac mae'n bleser cael cyhoeddi ei hadolygiad yn *Ichthus*.

Fel arfer byddwn yn mynd i'r sinema i fwynhau, ymlacio a stwffio llond bocs o bopcorn. Cyfle i ddianc o fywyd go iawn am ychydig! Roedd mynd i Galeri, Caernarfon i weld y ffilm *Arctig: Môr o Blastig?* yn brofiad hollol wahanol. Yn y ffilm fer yma, cawn rannu bywyd a phrofiad go iawn Mari Huws wrth iddi ddogfennu'r deg diwrnod y buodd hi'n hwylio i'r Arctig i ganfod y gwir am lefelau plastig yn y môr.

Ymunodd Mari Huws gyda chriw o wyddonwyr, ymchwilwyr ac artistiaid ar long hwylio. Nod y criw oedd cynnal ymchwil i fesur faint o blastig oedd yn llygru'r Arctig, y lle mwyaf anial yn y byd. Ar ffurf dyddiadur fideo a phytiau o gyfweliadau, mae Mari Huws yn rhannu ei phrofiadau anhygoel; y wefr o lanio ar arfordir prydferth yr Arctig a'r dadrith o ddod o hyd i ormod o dameidiau o blastig mewn lle mor dlws a phell o bobman. Mae hi yn pwysleisio'r effaith a gaiff dyn ar y byd. Yr effaith negyddol hynny yw.

Ffilm ddogfen addas ar gyfer pobl o bob oed yw hi, yn ddigon syml i'w deall ond y neges mor bwysig i bawb. Mwynheais hi oherwydd ei bod yn fyr ac yn syth i'r pwynt. Cewch weld golygfeydd hyfryd o dirwedd yr Arctig, y môr glas tywyll a'r mynyddoedd iâ claerwyn, oeraidd yn ei amgylchynu. Bydd y golygfeydd llygad-adar sydd wedi eu ffilmio gyda drôn o'r cwch hwylio yng nghanol y môr unig yn drawiadol a gwerth eu gweld. Mae'r ffeithiau wedi eu cyflwyno yn effeithiol iawn, cefndir o fideo môr a'r ffeithiau moel

yn ymddangos i'w darllen ar waelod y sgrin, e.e. 'Erbyn 2050 bydd mwy o blastig na physgod yn y môr' ac 'Mae rhwng 8 a 12 miliwn tunnell o blastig yn glanio yn y môr bob blwyddyn'. Mae dull Mari o gyfleu'r neges yn effeithiol – dydy hi ddim yn pregethu am y plastig, dim ond gadael ei wneud i'r amgylchedd. Enghraifft o ddifrod yw bod eirth Polar wedi cael eu gweld yn bwyta polystyren. Yng ngeiriau cyfwelydd, mae polystyren yn stwff afiach sydd yn torri'n filiynau o folecylau bychain sydd byth yn pydru.

Mari Huws, cyflwynydd y ffilm

i'r ffeithiau siarad drostynt eu hunain. Fy hoff ran o'r ffilm fer yw'r pytiau bychain o gyfweld criw'r llong gyda'u barn hwy ar blastig. Yr un arhosodd yn fy nghof fwyaf oedd gwyddonwraig yn dweud y buasai yn dadlau nad plastig yw'r broblem ond y ffordd mae pobl yn ei ddefnyddio; ei brynu, ei ddefnyddio, yna ei daflu heb feddwl lle'r aiff wedyn. Dw i'n hoff o sut mae Mari wedi rhoi ychydig o hiwmor yn y darn, e.e. wrth gyfweld â'r criw yn gofyn 'What time is it?' a hwythau yn ymateb 'Coffee time!'.

'Erbyn 2050 bydd mwy o blastig na physgod yn y môr'

Neges y ffilm yw bod y plastig yr ydym ni yn ei daflu hyd yn oed o Gymru yn cyrraedd yr Arctig (er ei fod yn cymryd dwy flynedd) ac y dylem feddwl i ble mae'n mynd a chymaint o ddifrod mae'n

Ewch i chwilio ar y we am y ffilm *Arctig: Môr o Blastig?* Mwynhewch y gwylio ond cofiwch wrando ar ei neges.

Mae'r neges yn bendant wedi aros yn fy nghof i ac rydw i'n meddwl y dylai pawb gael eu haddysgu am y pwnc pwysig yna. Mae Mari Huws yn cyflwyno'n naturiol a difyr. Yn wahanol i'r rhan fwyaf o ffilmiau y byddwch yn eu gwylio, bydd y ffilm hon yn gadael argraff arnoch am hir iawn. Felly, y tro nesaf y gwelwch luniau o wynfyd yr Arctig yn llawn o brydferthwch naturiol, meddyliwch.

PERERINDOD ARALL I SANTIAGO!

GARETH TILSLEY

Fel Modlen a Casi Wyn, oedd yn dweud eu hanes yn rhifyn diwethaf *Ichthus*, fe fu aelod arall o Ferea Newydd ar Bererindod i Santiago eleni, yn yr hydref, ychydig fisoedd yn ddiweddarach. Beth, tybed, sy'n denu aelodau o Eglwys Fethodistaidd anghydffurfiol yng Ngogledd Cymru i droedio'r llwybrau sydd mor gysylltiedig â defodau'r Eglwys Gatholig?

Er i Margaret a minnau ymweld â Santiago de Compostela mewn car rai blynyddoedd yn ôl fe fu rhyw awydd ynof i wneud y daith mewn dull mwy priodol - sef drwy droedio'r llwybrau y bu'r hen saint yn eu defnyddio, a chyrraedd Cadeirlan Santiago wedi blino, ag olion traul ar fy esgidiau a'm traed. Felly, pan ddaeth cynnig i fynd yng nghwmni unarddeg o bererinion eraill doedd dim eisiau ailfeddwl.

Mae nifer o wahanol deithiau cydnabyddedig i gyrraedd Santiago, a rhai ohonynt yn gannoedd lawer o filltiroedd o hyd - rhai o ganol Ffrainc, eraill o dde Sbaen - ond taith gymharol fer a ddewiswyd. Camino Inglés yw'r enw ar ein taith ni, sydd yn cychwyn yn Ferrol ac yn dilyn yr arfordir cyn mynd ymhellach i'r tir a chyrraedd y ddinas ryw 112km yn ddiweddarach. Mae rhaid teithio o leiaf 100km ar droed cyn cael cydnabyddiaeth - ac efallai faddeuant am ein haml bechodau - gan y Pab a'r Eglwys Gatholig ar ben y daith.

Ffordd y Saeson yw ystyr Camino Inglés, ond hwn oedd y llwybr a ddefnyddid gan bererinion o Gymru, yr Alban ac Iwerddon hefyd. Byddent yn hwylio i Sbaen gan gyrraedd porthladd Ferrol, a cherdded gweddill y daith fel ninnau. Difyr yw meddwl mai dyma'r union lwybr mae'n debyg a ddefnyddiodd y 'Wraig o Gaerfaddon' yn y Canterbury Tales. Ac wrth gwrs mae'n fwy na thebyg mai ar y llwybr hwn y daeth John Roberts o Drawsfynydd, a ddienyddiwyd yn 33 mlwydd oed yn 1610 am hyrwyddo Catholigiaeth ym Mhrydain, ac a wnaed yn Sant yn 1970.

Roeddem yn lwcus iawn i gael cwmni Ken Brassil ar ein taith gan fod ganddo ef, a fu'n archeolegydd yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru, wybodaeth eang am deithiau Santiago ac am bensaernïaeth a hanes yr amryfal eglwysi a welsom ar y

daith, a'r gallu i gyfathrebu yn hynod o ddiddorol gyda'r unarddeg arall. Eglurodd sut y dylanwadodd Llwybr y Pererinion ar adeiladwaith yr eglwysi a welsom ar y daith drwy efelychu arddull oedd yn gyffredin yn Ffrainc. A chawsom sgwrs ddiddorol ar hanes Sant John Roberts gan un arall o'r cwmni i ychwanegu at ein diwylliant.

gyflwyno i awdurdodau Cadeirlan Santiago ar ddiwedd y daith i gael ein tystysgrif. Roedd y stamp i'w gael mewn bwytai ar y ffordd - a pha well trefniant? Ein gorfodi i aros yma a thraw am baned o goffi neu bryd mwy sylweddol, a rhoi amser i ni sgwrsio â'n gilydd. Rwy'n siwr na chollodd neb bwysau, er cerdded hyd at 20 milltir mewn un diwrnod.

Roeddem wedi cael trefniant llefydd i aros a phryd o fwyd bob nos, ac fe gludid ein bagiau o un lle i'r llall heb i ni orfod eu cario ar ein cefnau, gan hwyluso'r daith yn fawr. Rhaid oedd cael stamp mewn llyfr 'Credencial del Pelegrino' bob nos i ddangos lle'r oeddem wedi cysgu, ac roedd angen o leiaf un stamp arall gydol y dydd i brofi ein bod wedi cerdded y Camino, i'w

Pa ots a yw esgyrn Sant Iago yn gorwedd yng Nghadeirlan Santiago a pha ots, fel yr honnir, a yw un o fysedd John Roberts yno hefyd! Pwrpas pererindod yw rhoi cyfle i ni adnabod ein hunain yn well ac osgoi'r gofynion dyddiol a gawn gartref. Os cewch gyfle, a phâr o esgidiau cryf a chyfforddus, ewch chithau a gwnewch yr un modd!

CASGLIAD DORCAS

Casgliad sy'n cael ei wneud pan fydd pobl ar y ffordd allan o'r capel ar ôl gwasanaeth Cymun yw Casgliad Dorcas. Mae'r arian yn mynd at wahanol achosion da. Ar hyn o bryd rydym yn casglu at Fanc Bwyd y Gadeirlan fel cyfraniad tuag at y costau sy'n codi wrth ofalu bod y bobl sy'n derbyn nwyddau o'r Banc yn cael popeth sydd ei angen arnynt.

CRISTNOGAETH 21 - ENCIL 2019
Y CREAD A'R CYMOD

Y PARCHEDIG ERIC JONES

Dyma ymateb yn frysiog i gais hwyrfrydig am adroddiad o'r cyfarfod a gynhaliwyd ym Merea Newydd ar ddydd Sadwrn yr 21ain o Fedi o dan lywyddiaeth y Parchedig Anna Jane Evans. Un o sylfaenwyr Cristnogaeth 21 yw'r Parchedig John Gwilym Jones, ac ymgais a gawn i ddehongli a thrafod y ffydd Gristnogol mewn termau cyfoes ac agored yn y ganrif newydd hon. Dyheu am hynny a wnaeth yr oddeutu deg ar hugain a ddaeth ynghyd.

Cyfranwyr Encil 2019 Llun: Catrin Evans

Cafwyd y ddarlith gyntaf gan yr Athro Gareth Lloyd Jones a'i destun oedd 'Yr Hen Destament a'r Amgylchfyd'. Nid oedd gan awduron y Beibl farn ar bynciau sydd o bwys i ni heddiw, am y rheswm syml nad oeddynt yn berthnasol iddynt hwy. Y mae ein dealltwriaeth o fyd natur yn yr Hen Destament yn dibynnu ar yr adnodau y dewiswn eu dyfynnu, a'r dehongliad y dewiswn ei dderbyn.

Yr ail ddarlithydd oedd Dyfed Wyn Roberts, a'i destun ef oedd 'Y Cread a'r Cymod'. Pwysleisiodd neges y Beibl am angen pobl am gymod â Duw, a bod hynny'n digwydd trwy'r un sy'n pontio daear a nef, sef Iesu Grist ei hun.

'Stiwardiaid y byd a chelfyddyd' ydym meddai Sioned Webb, a chawsom glywed detholiad o gerddoriaeth oedd yn ei barn hi yn ein cydio â'r nef ac â'n gilydd, megis gwaith Henryk Górecki – Totus Tuus; Siân James – Cymun; Britten – A young Person's Guide to the Orchestra; Queen – We will rock you; Agorawd Wagner – Die Meistersinger Nürnberg. Roedd y darn Ami Maamin gan y Rabi o Wlad Pwyl, a gyfansoddwyd ar y trên i'r siambr nwy, yn datgan y gobaith tawel yn *shalom* Duw yng nghanol ei gread.

Y Prifardd Ifor ap Glyn wnaeth gloi'r encil, trwy sôn fel y mae barddoniaeth ac iaith yn ein cysylltu â'n hemosiynau, a rhoddodd enghreifftiau o'i waith ei hun yn seiliedig ar ei amrywiol brofiadau wrth dramwyo'r cread.

Cofiwch y gellir gwrando ar ddewis Sioned Webb o gerddoriaeth ar wefan Cristnogaeth 21. Eisoes ymddangosodd y ddarlith gyntaf yno, ac fe ddaw y gweddill cyn bo hir. Mor rhyfeddol yw'r cyfryngau newydd yma, pan gawn gyfle i glywed a darllen cynnwys encil fel hon, ond llawer gwell oedd cael bod yno, fel y tystiodd y rhai a ddaeth o bob rhan o Gymru, a hyd yn oed o Gaerdydd bell.

ORDEINIO BLAENORIAID

Nos Fawrth 17 Medi, yn Berea Newydd, ordeiniwyd pump o flaenoriaid newydd yn Henaduriaeth Arfon, sef Mr Dafydd Iwan a Mr Clive James (Caeathro), a Mr Dylan Huw Jones, Mr Robert Elfyn Roberts a Mrs Siwan Mair Thomas (Horeb, Rhostryfan). Croesawyd hefyd ddau oedd eisoes yn flaenoriaid i wasanaethu eglwysi'r Henaduriaeth, sef y Parchg Gwenda Richards (Horeb, Rhostryfan) a Mr Paul Williams (Horeb, Llanfairfechan). Yn y llun gwelir hefyd Mr Hugh Hughes oedd yn cael ei longyfarch ar ddeugain mlynedd ei ordeiniad, ynghyd â Mrs Nerys Evans, llywydd yr Henaduriaeth; Mrs Cynthia Owen, Llywydd y Gymdeithasfa yn y Gogledd, a'r Parchedig Marcus Wyn Robinson, Llywydd y Gymanfa Gyffredinol.

PLANT, IEUENCTID A THEULUOEDD

OWAIN DAVIES

CLYBIAU CIC

Rydym wedi cael hanner tymor o weithgareddau hwyliog yn y clybiau CIC gan gynnwys noson gemau bwrdd a chrefftau Diolchgarwch. Mae'r plant hefyd wedi bod yn dysgu am y banciau bwyd ac maent wedi bod yn cyfrannu bwyd at yr achos teilwng iawn hwn.

STRWYTHUR CLYBIAU CIC

Oes gennych chi ddiddordeb mewn gweithio gyda phlant a phobl ifanc yr Eglwys?

Ein bwriad yw ffurfio tîm o unigolion i gefnogi a chynorthwyo datblygiad ein clybiau CIC. Cysylltwch gyda'r Gweinidog neu Owain am ragor o wybodaeth, neu os hoffech fod yn rhan o grŵp sy'n ymwneud gyda chlybiau Plant ac Ieuenctid, mae yna gyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer nos Iau 21 Tachwedd am 5.30pm ym Merea Newydd.

GWAITH CYMUNEDOL

Ar gychwyn y tymor cafwyd gwahoddiad i fynychu Bore Agored ym Mhrifysgol Bangor. Galluogodd hyn imi gyfarfod gyda myfyrwyr newydd a sôn am yr eglwys a'n holl weithgareddau amrywiol, yn ogystal â rhannu ein taflen wybodaeth.

Ar Ddydd Sadwrn 12 Hydref mynychwyd Diwrnod Hwyl i'r teulu yn Popdy. Roedd y digwyddiad yn cael ei drefnu gan Fenter Iaith Bangor, a chafwyd cyfle i sgwrsio a rhannu taflenni gwybodaeth gyda theuluoedd wrth i'r plant gael tro ar gicio'r bêl at ein gôl! Dim ond unwaith y rowliodd y bêl i waelod Lôn Pobty!

GWASANAETH CROESO'N ÔL

Ar 15 Medi cafwyd gwasanaeth ar y thema Croeso'n Ôl ac Edrych Ymlaen. Croesawyd y plant, yr ieuenctid a'r teuluoedd yn ôl i'r capel ar ôl seibiant yr haf a diolchwn iddynt am gymryd rhan yn y gwasanaeth. Yn dilyn y gwasanaeth cafwyd paned a bisged a chyfle i ddal i fyny ar ôl y gwyliau.

RYBGI YN Y FESTRI

Pam yr oedd y plant i gyd yn gwisgo coch yn ein hoedfa ddiolchgarwch ar 21 Hydref? Wel, roeddent newydd fod yn y festri yn gwylio'r gêm rygbi lle'r oedd Cymru'n wynebu Ffrainc yn rownd wyth olaf Cwpan Rygbi'r Byd yn Japan. Roedd y festri'n llawn (gw. tud.12) a'r rhyddhad a'r gorfoledd ar ddiwedd y gêm, wrth i Gymru ennill o drwch blewyn gan sicrhau

lle yn y rownd gyn-derfynol, yn amlwg! Er yr holl gynnwrf, fe wnaeth y plant eu rhan yn wych yn yr oedfa wedyn, a braf oedd clywed eitem radio Nia Cerys am y cyfan ar Radio Cymru drannoeth, gyda nifer o'r aelodau'n siarad. Berea Newydd yn torri tir newydd!

Rygbi yn Berea. *Gwylio gêm Cymru v Ffrainc (Cwpan Rygbi'r Byd, rownd yr wyth olaf) ar sgrin fawr yn y festri ar 20 Hydref.*

MYND I'R YSGOL FAWR

Mae rhai o blant yr Ysgol Sul wedi mynd i'r ysgol uwchradd ers mis Medi. Gofynnodd *Ichthus* iddynt sut brofiad, hyd yma, ydi bod yn Ysgol Tryfan.

SIÔN – *Dwi'n hapus yn Ysgol Tryfan, mwynhau bob dim hyd yn hyn.*

FFLUR – *Mi rydw i wrth fy modd yn Ysgol Tryfan. Ar y dechrau roeddwn i mor nerfus ond unwaith y gwnes i gerdded trwy'r giatiau, roeddwn yn teimlo fel disgybl oedd wedi bod yn yr ysgol ers blynyddoedd!*

ALAW – *Yr wyf wrth fy modd yn Tryfan. Mae'n ysgol hapus ac rwyf wedi 'neud ffrindia newydd.*

OWAIN – *Dwi wedi setlo'n dda yn Ysgol Tryfan. Fy hoff bynciau ydi Dylunio & Thechnoleg, Gwyddoniaeth a Mathemateg.*

CAI – *Rwyf wrth fy modd efo'r cyfleoedd newydd sydd i'w cael yn yr ysgol o ran pynciau a chwaraeon.*

NOSON GYNTAF Y GYMDEITHAS

BRUCE GRIFFITHS

Agorwyd tymor y Gymdeithas ar Hydref 10fed gan Alun Pritchard gyda sgwrs am ei hanes ef a'i wraig Janet, ers ugain mlynedd, yn helpu tlodion pentrefi Gorllewin Cenia trwy gefnogi Omwabimi, cynllun lleol sy'n golygu 'Achubwr'. Gyda sleidiau lliwgar ond sobreiddiol, dangosodd dair agwedd ar y gwaith, sef codi tai syml ond cadarn yn lle'r hofelau gynt, diogelu ffynhonnau o ddŵr croyw a gofalu am blant amddifad.



Alun Pritchard

Ar yr ymweliad diwethaf codwyd bythynnod i ddwy wraig, â chwech o blant yr un, a gollodd eu gwŷr, fel cymaint o deuluoedd yr ardal, i AIDS. Gwelsom osod pyst coed gyda brigau rhyngddynt dan haenau o laid. Cafodd y ddau deulu ddodrefn syml hefyd. Rhaid iddyn nhw wneud eu rhan yn y gwaith, a gwelsom Esther Nafula'n gwastatáu'r llawr pridd a gosod yr haen olaf o bridd tywodlyd sy'n gwneud y llaid yn ddiddos.

Rhaid i'r teuluoedd dyfu eu bwyd eu hun, ond cawsant rodd o hadau, gwrtaith a geifr. Cost y cyfan, ar gyfer y ddau deulu, oedd £1,045. Mae Alun wedi ymwneud â chodi 86 o dai syml, ond codwyd bwthyn Esther er cof am William a Kate Jones, mam a thad Janet. "Berth" yw'r enw ar y tŷ hwn.

Dibynnai 60 teulu ar bistyll budr. Y dasg oedd creu tanc dŵr a ffos iddo. Gwelsom wneud y brics mwd angenrheidiol yn lleol, a chreu tanc gyda grisiau at ddwy beipen lle byddai'r dŵr yn llifo allan. Cloddiwyd ffos o'r ffynnon i gefn tanc, llenwi'r ffos â cherrig a chuddio'r cyfan dan bolythen a phridd. Cafwyd dathlu a gosod arwydd, "Pistyll Mumelo Spring", a dangos lluniau plant ysgolion Bryngwran, Benllech a Moelfre oedd wedi codi'r arian; y gost oedd £400.

Gofala Mama Mary, sefydlydd Omwabini, am dros 30 o blant amddifad. Fe'u gwelsom yn mynd i'r farchnad i brynu 'sgidiau, dillad a phethau 'molchi a chael sioe ffasiynau wedyn. Mae Alun wedi bod yn cefnogi dau o'r plant hŷn, Joseff a Rose, yn arbennig.

Cafwyd cyfraniad sylweddol i'r achos ar derfyn y noson gofiadwy hon.

COFIWCH AM DUDALENNAU BEREA AR Y GWEFANNAU!

www.gofalaethbangor.org / www.henaduriaetharfon.org

YNYSOEDD SCILLY

GARETH EMLYN JONES

Nid pawb sy'n gwybod bod ysgrifennydd Berea Newydd yn hwyliwr profiadol iawn.
Dyma hanes un o'i deithiau anturus diweddaraf.

Nos Sul y 14eg o Orffennaf, cyrhaeddais Falmouth a mynd ar fwrdd Amelie Rose. 'Pilot Cutter', 44 troedfedd o hyd gyda bolsbryd 15 troedfedd yn ymestyn o'r bow, yw Amelie. Cafodd ei hadeiladu ddeng mlynedd yn ôl ac mae'n gopi union o'r 'cutters' gwreiddiol ddefnyddiwyd i fynd â pheilotiaid at longau hwylio i'w harwain i mewn i borthladdoedd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg – gallwch Gwglo 'Amelie Rose' i weld lluniau neu ffilmiau ohoni.

Fe wnaethom gychwyn yn blygeiniol y bore canlynol gan anelu am y gorllewin. Roedd yn fore braf gyda'r gwynt yn y de-ddwyrain, sef gwynt delfrydol ar gyfer y cyfeiriad yr oeddem ni am fynd iddo. Gosod cwrs yn gyntaf i glirio'r Manacles, rhes o greigiau sy'n ymestyn allan i'r môr oddi ar arfordir Cernyw. Bu llawer i longddrylliad yn y fan yma ar hyd y blynyddoedd a dros fil o bobl wedi boddi. Ymlaen wedyn i glirio trwyn y Lizard, man arall fu'n fynwent i longau lu, cyn hwylio ar draws Mount's Bay gyda Land's End ymhell i'r dde (neu 'starboard' i'r rhai sy'n dallt).

Erbyn hyn roedd y môr yn ddigon clonciog gan fod dŵr y Sianel yn cyfarfod Môr

Amelie Rose Llun: www.topsail-adventures.co.uk

Iwerydd. Nid olwyn ond llyw sydd ar Amelie, fel sydd i'w gael ar gychod bach ond fod hwn rhyw chwe throedfedd o hyd. Roedd y gwynt yn codi'n raddol ac Amelie yn gwneud tua chwe 'knot' trwy'r dŵr a thros saith dros y tir gan fod y llanw'n ein helpu. Gyda'r gwynt yn codi'n raddol a'r tonnau'n mynd yn fwy fel yr oeddem yn gadael y tir, cefais gyfle i gymryd y llyw. Rhyw wyth milltir oddi ar y tir mawr mae Wolf Rock sef craig yng nghanol y môr gyda goleudy uchel arni. Wrth weld y graig ar ddiwrnod braf heb sôn am dywydd garw, mae'n anhygoel meddwl sut y gallwyd adeiladu goleudy yn y fath le erioed.

Gadael Wolf Rock y tu ôl inni, a mwyaf sydyn rhyw chwech throedfedd oddi wrth ochor y cwch, dolffin yn neidio allan o'r dŵr ac yna haig ohonynt yn gwibio o gwmpas, yn nofio o dan y cwch ac yn chwarae o gwmpas y bow. Buont yno'n chwarae am ryw bum munud cyn diflannu mor sydyn ag y daethant. Rwyf wedi gweld dolffiniaid yn chwarae o gwmpas cychod o'r blaen fwy nag unwaith, ond mae'n wefr o'r newydd bob tro.

Roedd y gwynt yn dal i godi a'r tonnau'n mynd yn fwy, ac Amelie erbyn hyn yn hedfan, gyda'r ewyn yn berwi'n wyn o'i chwmpas ac yn sislan fel sosban tships. Mae bod wrth lyw 24 tunnell o gwch sy'n syrffio ar dros naw 'knot' ar frig ton yn dipyn o brofiad a bûm yn gwneud hynny am tua pedair awr.

Toeddem ni ddim yr unig gwch ar y dŵr y diwrnod hwnnw o bell ffordd, gydag ambell i long eithaf mawr ar y gorwel ac roedd rhes o hwyliau yn anelu i'r un cyfeiriad â ni. Roedd rhai yn mynd yn groes i ni hefyd, yn ôl am y tir mawr ac i gyd wedi riffio, sef wedi gwneud yr hwyliau'n llai, oedd yn dangos ei bod yn chwythu'n weddol galed. Gan ein bod ni yn mynd efo'r gwynt roedd yn brafiach arnom ni ac mae Amelie yn drymach cwch efo rig mwy traddodiadol.

Nid yw hwylio at ddant pawb gan y gall fod yn brofiad oer, gwlyb ac anghyfforddus ar adegau, ond ambell i waith mae pob dim yn dod at ei gilydd yn berffaith, ac felly y bu hi y diwrnod hwnnw. Roedd yr haul yn tywynnu, roedd y gwynt yn y cyfeiriad ac o'r nerth delfrydol gyda'r llanw'n garedig ac roeddem wedi croesi o Falmouth mewn llai na naw awr. Yr amser gorau a wnaeth Amelie cyn hyn, mewn deng mlynedd o groesi i'r ynysoedd, oedd ychydig o dan un awr ar arddeg awr.

Cawsom angori wrth St Agnes y noson gyntaf a chael cyfle i grwydro'r ynys y diwrnod canlynol cyn symud i angorfa arall am yr ail noson, a buom yn crwydro o gwmpas y gwahanol ynysoedd pob dydd.

Mae pobol yn byw ar bedair o'r ynysoedd, gyda thua 1,500, sydd tua 80% o'r holl boblogaeth, yn preswylio ar St Mary's. Tresco, St Agnes a St Martin's yw'r lleill. Mae'r Ynysoedd yn lle gwych i ymlacio efo traethau o dywod gwyn yn frith yno. Digon hawdd yw cael traeth i chi'ch hun a bûm yn crwydro llawer heb weld neb. Wrth grwydro o gwmpas ar y dŵr roedd rhywun yn ymwybodol o ba mor beryglus oedd y dyfroedd hyn, gyda chreigiau miniog yn codi'u pennau ar hyd y lle, a hawdd iawn oedd credu'r holl hanesion am longddrylliadau dros y blynyddoedd (cofiwn am y llong olew, y Torrey Canyon, mor ddiweddar â 1967).

Ar y dydd Sadwrn dyma gychwyn yn ôl am Falmouth gyda'r gwynt, yn ystyriol iawn, wedi newid i'r de-orllewin, eto y cyfeiriad delfrydol. Mae cael gwynt teg wrth fynd a dod yn rhywbeth anarferol iawn a'r noson honno fe arhosom mewn bae cysgodol ychydig filltiroedd o Falmouth. Fore Sul cawsom hwylio'n dawel ar draws Bae Falmouth i ganol prysurdeb y marina yn Falmouth ac yna anelu am adref.

Yr hwylio ei hun yw'r apêl gyntaf i mi wrth fynd ar fy nheithiau hwylio, ond byddaf hefyd yn mwynhau ymweld â phorthladdoedd ac ardaloedd newydd a chael blas ar hanes a thraddodiadau'r lle. Mae'r profiad o godi yn y bore mewn ambell i harbwr neu angorfa dawel ymhell o bob man yn rhywbeth sy'n aros yn y cof.

Fel rhywun sydd wedi ei fagu gydag Ynys Enlli i'w gweld o'm hystafell wely ddim ond rhyw bum milltir i ffwrdd fel y hed y frân, mae rhywun yn dueddol i gymharu'r ddau le. Er fod Ynysoedd Scilly yn dipyn pellach o'r tir mawr nag yw Enlli ac yn lle digon dymunol, nid oedd yr un teimlad o lonyddwch a heddwch i'w gael yno, ddim i mi beth bynnag. Pawb at y peth y bo wrth gwrs.



BEIBL I BAWB *Yn yr oedfa ddiolchgarwch deuluol ar 20 Hydref, derbyniodd tri o blant bach a gafodd eu bedyddio'n ddiweddar yn Berea Newydd rodd arbennig gan y Parchg Elwyn Richards, sef copi o'r Beibl Bach i Blant. Roedd Enlli, Gwion a Lŵsi eisiau pori ynddo'n syth bin!*

GWALLT! GWALLT! GWALLT!

ENID ROBERTS

Gormod ohono neu ddim digon?

Na, nid ceisio troi *Ichthus* yn gyfnodolyn harddwch yr ydw i ond darllen wnes i'n ddiweddar am ŵr o Gaergrawnt a ymchwiliodd i'r Diwygiad Protestannaidd yn Ewrop a darganfod bod steil gwallt arbennig a maint barf wedi bod yn fodd i arddangos daliadau crefyddol.

Rhaid oedd i'r plwyfolion wrando ar eu gweinidogion crefyddol ynglŷn â sut i drin eu gwallt mewn modd a fyddai'n briodol i'w rhyw, eu statws a'u cenedl. Meddyliwch – gwaith newydd i'n gweinidogion! Nid oedd neb i blethu na chyrlio'u gwallt – byddai hynny'n fater digon difrifol iddyn nhw gael eu hesgymuno a chael gwrthod mynediad i'r nefoedd.

Ond beth am y rhai, fel finnau, a chanddyn nhw wallt cyrliog? Yr ateb, mae'n debyg, oedd gwallt ffug. A'r gwŷr oedd yn colli eu gwallt? Roedden nhw'n colli eu statws crefyddol a chymdeithasol ac felly, rhag cael eu gwawdio'n ddi-baid, byddai'n rhaid iddyn nhwythau wisgo gwallt ffug.

Chwi wŷr sy'n colli eich gwallt – gochelwch!

CYFRANIADAU I ICHTHUS

Mae Ichthus yn mynd i'r wasg ar ddechrau wythnos olaf pob mis, felly os oes gennych gyfraniad, boed yn erthygl, adroddiad, neu lun, gyrrwch at menna@fforddpenrhos.plus.com neu gdeiniol@hotmail.com ar ddechrau'r wythnos flaenorol os gwelwch yn dda.

Ond fel rwy'n deall heddiw nid oes angen petruso'n ormodol. Mae gwyddonwyr yn Ne Corea wedi darganfod meddyginiaeth yn y ddiod Kimchi sydd i'w hyfed bob bore a nos. Cymysgedd lefeiniedig (*fermented mixture*) o fresych, nionod, saws pysgod, garlleg a pherlysiau yw hwnnw. Swnio'n flasus?

Wrth feddwl yn ôl bu chwe gŵr o fy nheulu i yn flaenoriaid gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, ond dau ohonyn nhw'n unig oedd â digon o wallt i gael mynediad i'r nefoedd. Ond am linach eglwysig y teulu, roedd ganddyn nhw i gyd lond pen o wallt gwyn trwchus. Byddai mynediad i'r nefoedd i bob un, gan gynnwys yr olaf ohonynt, y Parch. Joseph Aelwyn Roberts, Llandygai. A oedd hyn yn deg? Na, mae'n ddrwg gen i ddefnyddio'r gair nad oedd yn bodoli bryd hynny – Brexit!

Ar hyd y blynyddoedd mae gwallt wedi bod yn destun siarad i ferched o bob oed – rhaid ei gyrlio, rhaid ei sythu a gwario ffortiwn.

Gwallt! Gwallt! Gwallt!

Gwerthfawrogaf yn fawr yr holl garedigrwydd a'r dymuniadau da a dderbyniais yn ddiweddar – diolch o galon, Enid.

EMYN A DARLLENIAD

	EMYN	DARLLENIAD
10 Tachwedd	844 'Efengyl tangnefedd' Meilyr Lynch	SALM 48:1–3.12–14 (Beibl.net) Iolo Evans Jones
17 Tachwedd	50 'Down i'th wyddfod' Bedwyr Llŷr	Salm 16:1–9 (Beibl.net) Llio Eurgain
24 Tachwedd	46 'O Dad, fe'th garwn' Tomos Roberts	Salm 100 (BCN) Siôn Roberts
1 Rhagfyr	425 'Agor ein llygaid' x 2 Efan Herber Rhys	Mathew 24:32–35 (BCN/Beibl.net) Efa Huw
8 Rhagfyr	YMARFER GWASANAETH NADOLIG	
15 Rhagfyr	GWASANAETH NADOLIG	
12 Ionawr	626 'Clyma ni'n un' Mati Wyn Roberts	Eseia 60:1–6 (Beibl.net) Eleri Wyn Roberts
19 Ionawr	628 'Rwy'n codi fy mhobl' Elen Gwynn	Salm 40:1–5 (Beibl.net) Owain Gwynn
26 Ionawr	274 'Ceisiwch yn gyntaf' Hanna Edwards	Salm 27:1–4 (Beibl.net) Owain Edwards

BCN – Y Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig
neu Y Beibl Cymraeg Newydd
Diolch yn fawr am eich cyfraniad
Os bydd plentyn neu deulu'n newid Sul gyda rhywun arall, hysbyser Menna Baines – menna@fforddpenrhos.plus.com / 07867 697921. Diolch.

Cofiwch:
BOB NOS LUN
CIC BANG BACH:
6.15–7.15
CIC BANG:
7.30–9.00

Byddai swyddogion y capel yn falch iawn o recordio gwasanaethau ar gyfer aelodau sydd yn cael anhawster i fynychu'r oedfaon.

Os hoffech i ni recordio gwasanaeth ar eich cyfer cysylltwch ag un o'r blaenoriaid neu'r swyddogion.

Y DYDDIADUR

TACHWEDD	
Mercher 6, 2.00	CYFARFOD Y MERCHED: Sgwrs gan Geraint Percy Jones
Iau 14, 7.00	Y GYMDEITHAS: Wil Owen yn sôn am ei waith yn golygu'r *Cymro* *Llywydd: John Wynn Jones*
Sadwrn 16, 10.00 ac 1.00	DIWRNOD AML-FFYDD AR ADEILADU HEDDWCH. Yn y Gadeirlan. Ffair Heddwch, yna Gwylnos Heddwch (Cytûn)

RHAGFYR	
Iau 12, 7.00	Y GYMDEITHAS: Noson Nadoligaidd yng nghwmni Côr Aelwyd JMJ
Gwener 13, 6.00	CANU CAROLAU yn Morrisons (Cytûn)

IONAWR	
Iau 9, 7.00	Y GYMDEITHAS: Bethan Wyn Jones: 'Hen Wraig Bryn Caniad'
IONAWR 18–25	WYTHNOS WEDDI AM UNDOD CRISTNOGOL (Cytûn, amryw leoliadau ym Mangor)

Y SEIAT: Byddwn yn trefnu seiat yn ystod y dydd yn hytrach na gyda'r nos a bydd y manylion yn cael eu cyhoeddi.

CORNEL CODI GWÊN

GLYN LLOYD JONES

Newyddion drwg!

Un bore Sul, dywedodd y Gweinidog wrth y gynulleidfa fod ganddo newyddion da a drwg iddynt.

Aeth yn ei flaen i gyhoeddi'r newyddion drwg gyntaf sef fod angen £2000.00 ar frys i drwsio to'r Capel.

Clywodd y praidd yn dechrau cwyno a griddfan yn eu seddau.

Torrodd ar draws y cwyno gan gyhoeddi'r newyddion da sef fod digon o arian ar gael i gyfarfod costau'r atgyweirio.

Y tro hwn, clywodd ocheneidiau o ryddhad yn codi o'u plith.

Yna, aeth ymlaen i ddweud:

'Y darn ola o'r newyddion drwg ydi fod yr arian hwnnw'n dal yn eich pocedi chi!!'

Y GYMDEITHASFA YN Y GOGLEDD

Ar 9 Hydref cynhaliwyd y Gymdeithasfa yn y Gogledd yn Berea Newydd a dyma ddau lun o'r achlysur.

Chwith: Yr Ysgrifennydd (y Parchg Marcus Robinson) yn trosglwyddo'r swydd i'r Ysgrifennydd newydd (y Parchg Elwyn Richards).

Isod: Y Parchg Aled Lewis Evans a ordeiniwyd efo Llywydd y Gymanfa Gyffredinol (Y Parchg Marcus Robinson) a Llywydd ac Ysgrifennydd y Sasiwn (Cynthia Owen a'r Parchg Elwyn Richards).